# 9fed Cyfarfod Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau PBC

## Swyddfeydd y Cyngor Cefn Gwlad, Y Drenewydd

## 8fed Chwefror 2013

**Presennol:** Stephen Bladwell, Cadeirydd (RSPB Cymru); Sean McHugh, Ysgrifenyddiaeth (PBC); Claire Install (*British Dragonfly Society*); Rachel Taylor (BTO); Lizzie Wilberforce (YBGC); Andy Jones (CCG); Mark Barber (ARC); Rob Strachan (AAC); Adrian Fowles (CCG); Reg Thorpe (RSPB Cymru);Trevor Dines (*Plantlife Cymru*); Liz Howe (CCG) - drwy delegynhadledd.

**Ymddiheuriadau:** Steve Lucas (BCT); Russel Hobson (BC); Sam Bosanquet (CCG); Craig MacAdam (Buglife); Sian Whitehad (CCG); Liz Halliwell (CCG); Geoff Hobbs (CBS Pen-y-bont ar Ogwr); Chris Tucker (CCC); Sinead Lynch (BBCT); Jean Matthews (CCG)

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.

| Rhif | Diweddariad/Cam gweithredu | Gan bwy/pryd | Sylwadau ychwanegol |
|---|---|---|---|
| 1 | Bydd diweddariad ar Fframwaith Bioamrywiaeth yn cael ei ddarparu gan LlC yn GLl19 PBC - anfonwch ddiweddariad at y GARh. | Sean/28ain Chwefror. | Cyswllt GLl19 PBC: http://biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Cyfarfodydd-y-Grp-Llywio |
| 2 | Cymunedau o Gapiau Cwyr ar laswelltiroedd i'w cynnig fel crynodiad rhywogaeth a42 yn GLl20 PBC - Trevor i gylchredeg y papur drafft i'r GARh. | Trevor/ pan fydd ar gael. | Cyflwynwyd papur ar Ffridd yn GLl18 PBC yn argymell cynnwys y cynefin yn a42 yn seiliedig ar nodweddion biolegol. Y papur i egluro'r broses gyfreithiol a chadarnhau cyngor CCG ar restru Ffridd i'w gyflwyno yn GLl19 PBC.<br>Cyswllt GLl19 PBC: http://biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Cyfarfodydd-y-Grp-Llywio |
| 3 | Mae gan Grŵp Gorfodi Troseddau Bywyd Gwyllt Cymru gadeirydd newydd - y Prif Arolygydd Mark Bleasdale o Heddlu Dyfed Powys. Gwelir manylion y papur ar wefan PBC. | Sean/cynnwys gyda chamau gweithredu'r GARh. | Cyswllt GLl19 PBC: http://biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Cyfarfodydd-y-Grp-Llywio |
| 4 | Yr holl bartneriaid i anfon diweddariad byr o'r prosiectau maen nhw'n ynghlwm â nhw. Gellir cynnwys diweddariad treigl ar wefan PBC o dan adran y GARh sydd yn cael ei datblygu. | Pawb (Stephen i gylchredeg diweddariad Russel gyda chamau gweithredu GARh). | Cyswllt GARh ar wefan PBC: http://biodiversitywales.org.uk/en-GB/Species |
| 5 | Darparodd Russel Hobson ddiweddariad drwy Stephen ynghylch darparu hyfforddiant | Stephen/ cynnwys diweddariad gyda chamau gweithredu | Mae angen adeiladu arbenigedd tacsonomig yng Nghymru a darparu ateb |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | tacsonomig yng Nghymru. Mae Graham Oliver yn llunio holiadur i'w anfon at y sefydliadau perthnasol. | GARh.<br><br>Sean i gylchredeg cyswllt yr arolwg i'r GARh pan fydd ar gael. | cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. |
| 6 | Mae angen ailystyried anghenion rhaglen waith y GARh gan y grŵp. | Sean/ cynnwys gyda chamau gweithredu'r GARh. | Y camau gweithredu allweddol yw cynnydd ar y gwaith integreiddio rhywogaethau-cynefinoedd a phrosiectau penodol i ardal e.e. prosiect 3 afon yng ngorllewin Cymru. |
| 7 | Mae cadeiryddion ecosystemau wedi bod yn gweithio gyda'r CGBLlau yn ôl eu gallu i gynnig cyngor a syniadau am brosiectau. Un sylw oedd ei fod yn ddefnyddiol i gael aelod o'r GARh i ategu'r cyngor ar y cynefinoedd. Mae cyfarfodydd y CGBLl a seminar y CGBLl yn un maes lle y gallai'r GARh gyfrannu. Sean i gylchredeg y manylion. | Sean/diwedd Mawrth. | Mae seminar y CGBLl yn digwydd ym mis Mehefin (Yr Amwythig) lle gallai aelodau'r GARh gyfrannu. |
| 8a | Cronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau. Mae'r GARh wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at brosiectau sgrinio, darparu cyngor ar rywogaethau ayyb. Mae capasiti yn ystyriaeth a bydd is-grŵp GARh yn ymdrin â hyn er mwyn symud ymlaen. | Pawb i ystyried bod yn aelod o'r is-grŵp os ydyn nhw eisiau cael eu cynnwys.<br><br>Stephen i gylchredeg dyddiadau panel CAE pan fyddan nhw ar gael. | Mae angen i aelodau'r is-grŵp fod ar gael ym mis Mehefin/Gorffennaf. Mae Liz Howe, Rachel Taylor, Lizzie Wilberforce wedi datgan diddordeb. Stephen i gydlynu. |
| 8b | Cronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau - Mynegodd Trevor bryderon ynghylch strwythur grant CAE - byddai'n ddefnyddiol i ddarparu cyllid cyfatebol gyda chronfeydd CCG; nid yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd. | Trevor i ddrafftio llythyr a'i gylchredeg i'r GARh. | |
| 9 | Cynllun peillio. Nid oedd Russel/Sinead yn gallu mynychu'r cyfarfod i roi diweddariad. Roedd gan aelodau'r GARh a oedd wedi gweld y wybodaeth gefnogol ynglŷn â'r Cynllun Peillio bryder nad yw'r cynllun yn ymdrin ag anghenion ecosystemau a rhywogaethau ehangach ac mae'i | Trevor/Russel i gylchredeg llythyr drafft i'r GARh ar gyfer sylwadau yn mynegi pryder / cyn gynted ag sy'n bosibl.<br><br>Sean i gylchredeg cyswllt ymgynghoriad y | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwmpas braidd yn gul (gwenyn mêl). Bydd LlC yn lansio ymgynghoriad ar y cynllun peillio ym mis Mawrth. | cynllun peillio pan fydd ar gael. | |
| 10 | Capasiti Amgueddfa Cymru - pryder y gall hyn leihau yn ystod yr ailstrwythuro arfaethedig. Cytunodd pawb y byddai llythyr yn cael ei anfon gan y GARh yn mynegi pryderon. | Liz i ddrafftio llythyr a'i gylchredeg i'r GARh/cyn gynted ag sy'n bosibl. | |
| 11a | Gweithdy integreiddio rhywogaethau-cynefinoedd mewn coetiroedd.<br>Mae gan Stephen rai dogfennau diweddar a oedd yn sail i'r gweithdy a bydd yn eu cylchredeg ynghyd â chyd-destun ac allbynnau'r gweithdy.<br>Defnyddiwyd rhestr wirio 2012 CCC ar gyfer canllawiau rhywogaethau mewn coetiroedd ar gyfer elfen reoli'r gweithdy. | Stephen i gylchredeg allbynnau'r gweithdy i'r GARh / cyn gynted ag sy'n bosibl.<br><br>Stephen i roi adborth am allbynnau'r gweithdy i Chris Tucker/ cyn gynted ag sy'n bosibl. | Cymerodd y grŵp ran mewn sesiwn ryngweithiol wedi'i seilio ar reoli coetiroedd a chreu coetiroedd. Gall y GARh ddylanwadu ar system sgorio ar gyfer plannu coetiroedd arfaethedig a mewnbwn i fesurau rhywogaethau generig a phenodol yn ogystal â thargedu gofodol. Bydd y cyngor hwn yn cael ei ddefnyddio gan reolwyr cytundebau i gyflawni cynllun plannu Glastir. |
| 11b | Gweithdy integreiddio rhywogaethau-cynefinoedd mewn coetiroedd. Mynegodd y GARh bryderon am yr amcanion a defnydd terfynol o'r canllawiau. Gallai is-grŵp y GARh anfon hyn ymlaen er mwyn dylanwadu ar CCC. | Stephen/cyn gynted ag sy'n bosibl. | Stephen i gysylltu â Clare Burrows (CCG) a Chris Tucker yn y lle cyntaf (CCC) i egluro'r amcanion a diweddaru'r grŵp ar y camau nesaf. |
| 12 | Dyddiad y cyfarfod nesaf - Mehefin 2013. Awgrymwyd cyfarfod maes. Mae angen trafod ar gyfer dyddiadau a themâu a chanolbwyntio ar integreiddio rhywogaethau-cynefinoedd. | Sean/canol Mawrth. | |